**Cofnodion cyfarfod Cyngor llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Fercher, 11 Rhagfyr 2024, am 6.30pm yn hybrid.**

**Presennol:** Wyneb yn wyneb: Y Cynghorwyr Jan Tomlinson, Alyn Ashworth, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Philip Stevens, Gaynor Morgan-Rees, Sylvia Jennings, Andrew Hine, Sioned Garrod, Simon Harding, Matthew Jones, Pauline Edwards, Jenny Barlow (Clerc y Dref) a Jo Davies (Cynorthwy-ydd Dinesig)

**Zoom:** Dim

**Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jan Tomlinson, bawb i gyfarfod llawn y Cyngor a chroesawodd aelodau'r cyhoedd, Nelly Smyth (Zoom), John Musgrave, Sharon Tyers a Lewis Fox, a nododd eu bod yno fel arsylwyr.**

**99** **Ymddiheuriadau am absenoldeb.** Y Cynghorwyr Lara Pritchard, Simon Harding a Robert Davies.

**100** **Datgan buddiant personol/buddiant sy'n rhagfarnu**
Yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu yn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn: **Dim**

**101** **Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd nos Fercher, 25 Medi 2024 –** Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion Rhan 1. Cofnodion Rhan 2 i'w trafod yn ystod Rhan 2 y cyfarfod.

**102** **Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor Tref a gynhaliwyd nos Fercher, 6 Tachwedd 2024 –** Cadarnhawyd a derbyniwyd y cofnodion.

**103** **Cofnodion Cyfarfod Eithriadol y Cyngor Tref a gynhaliwyd nos Lun, 25 Tachwedd 2024 –** Cadarnhawyd a derbyniwyd y cofnodion **–** er bod hyn yn groes i gyngor Clerc y Dref gan nad oedd y cyfarfod wedi'i gynnal yn hybrid er ei fod wedi'i hysbysebu fel cyfarfod hybrid.

**104** **Materion yn codi –**

**104.1** **Diweddariad ynghylch defnyddio'r parcio am ddim am 30 munud ym maes parcio Llain y Ffatri 02.09.2024-01.12.2024 –** Bydd ffigurau caffael yn cael eu casglu gan Glerc y Dref i'w trafod ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf 2025/2026.

**104.2** **Neges e-bost gan H Jones, Cyngor Sir Ddinbych – derbyn cyfraniad at y toiledau ym maes parcio Llain y Ffatri** – Nodwyd – Gwnaeth y Cynghorydd Pauline Edwards sylw fod y toiledau'n cau am 3pm bob diwrnod, yn anffodus, oherwydd fandaliaeth.

**104.3** **Neges e-bost gan Clwyd Wynne ynghylch y bwriad i symud o leoliad yr Amgueddfa –** Nodwyd.

**104.4** **Neges e-bost gan Clwyd Wynne yn rhoi diweddariad ynghylch yr Amgueddfa'n symud i'r Farchnad Fenyn –** Nodwyd.

**104.5** **Neges e-bost gan Medwyn Jones ynghylch dodrefn yn yr Amgueddfa –** Nid oes gan y Cyngor Tref unrhyw wrthwynebiad i'r Amgueddfa gadw'r dodrefn.

**105 Gohebiaeth a dderbyniwyd** –

**105.1** **Neges e-bost gan S Roberts ynghylch y cyfarfod ar 25 Tachwedd –** Bydd Clerc y Dref yn ymateb.
**105.2** **Neges e-bost gan G Thomas ynghylch y cyfarfod ar 25 Tachwedd –** Bydd Clerc y Dref yn ymateb.
**105.3** **Nodyn diolch gan Sioe Dinbych a'r Fflint – ynghylch cymorth grant –** Nodwyd.
**105.4** **Neges e-bost gan K Harcus ynghylch gwefan Ymweld â Dinbych –** gwirfoddolodd y Cynghorydd Andrew Hine.
**105.5** **Copi o ddatganiad i'r wasg gan Bwyllgor Drysau Agored Dinbych –** Nodwyd.
**105.6** **Neges e-bost gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Dweud eich dweud am gyllido ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru –** Nodwyd – Y Clerc i anfon manylion mewngofnodi i unrhyw Gynghorwyr sy'n dymuno rhoi mewnbwn.
**105.7** **Neges e-bost gan Clwyd Wynne ynghylch ffotograff o'r awyr o Gastell Dinbych –** Cytunodd y Cyngor Tref ar ddewis 1, sef adfer y ffotograff.
**105.8** **Neges e-bost gan S Jones ynghylch cais cynllunio 01/2024/1333/PF –** Nodwyd.
**105.9** **Neges e-bost gan Adran Tai Cyngor Sir Ddinbych – cylchlythyr i denantiaid (dosbarthwyd ar 04.12.2024) –** Nodwyd.
**105.10** **Taliadau cydnabyddiaeth drafft 2025/26 – dosbarthwyd y manylion ar 04.12.2024 –** Nodwyd

**106 Cyllid -**

**106.1 Adroddiadau cysoniadau bancio – cytunwyd ar gysoniad bancio mis Medi 2024 a'i nodi. Gohiriwyd adroddiadau mis Hydref nes y derbynnir llungopi o'r datganiadau banc gan na dderbyniwyd y datganiadau gwreiddiol –** Nodwyd.

**106.2 Rhestr y taliadau a wnaed – mis Medi a mis Hydref 2024 – Nodwyd**

| Rhif yr eitem | Dyddiad | Rhif y siec | Taliad i | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| **106.2.1** | 03.09.2024 | 008356, 008357 a 008358 | Jones & Graham | Cyflog mis Medi | £5931.39 |
| **106.2.2** | 18.09.2024 | 008359 | Activities For You Ltd | Addurniadau'r goeden Nadolig | £147.97 |
| **106.2.3** | 18.09.2024 | 008360 | J Barlow | Ad-daliad Zoom mis Awst | £15.59 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **106.2.4** | 18.09.2024 | 008361 | Catalyst | Ffi gwasanaeth ffôn mis Gorffennaf | £58.78 |
| **106.2.5** | 18.09.2024 | 008362 | Catalyst | Ffi band eang mis Awst | £52.80 |
| **106.2.6** | 18.09.2024 | 008363 | Catalyst | Batris y gellir eu hailwefru i'r ffôn | £16.80 |
| **106.2.7** | 18.09.2024 | 008364 | Canda Copying Ltd | Llungopïau 31.05 – 30.08.2024 | £14.60 |
| **106.2.8** | 18.09.2024 | 008365 | Canda Copying Ltd | Prydlesu'r llungopïwr 01.09 – 30.11.2024 | £47.46 |
| **106.2.9** | 18.09.2024 | 008366 | Catalyst | Creu copi wrth gefn mis Awst | £6.01 |
| **107.2.10** | 18.09.2024 | 008367 | Catalyst | Ffi band eang mis Medi | £52.80 |
| **106.2.11** | 18.09.2024 | 008368 | P Liversidge | Cynnal a chadw tiroedd mis Awst | £175.00 |
| **106.2.12** | 18.09.2024 | 008369 | P Liversidge | Casglu sbwriel – gardd Dr EP | £15.00 |
| **106.2.13** | 26.09.2024 | 008376 | J Barlow | Ad-daliad Zoom mis Medi | £15.59 |
| | | | | | **Cyfanswm £6549.79** |
| **106.2.14** | 02.10.2024 | 008377, 008378 & 008379 | Jones & Graham | Cyflog mis Hydref | £5931.39 |
| **106.2.15** | 30.10.2024 | 008380 | J Davies | Ad-daliad am gacennau – taith Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog | £18.50 |
| **106.2.16** | 30.10.2024 | 008381 | H Evans | Taflenni'r gwasanaeth Sul Dinesig | £25.00 |
| **106.2.17** | 30.10.2024 | 008382 | Jones & Graham | Cyflog y Cynorthwy-ydd 01/07 – 30/09/2024 | £82.20 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **106.2.18** | 30.10.2024 | 008383 | Catalyst | Ffi gwasanaeth ffôn mis Medi | £58.78 |
| **106.2.19** | 30.10.2024 | 008384 | Catalyst | Ffi band eang mis Hydref | £52.80 |
| **106.2.20** | 30.10.2024 | 008385 | Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych | Siec dyblygu siec rhif 008250 | £5000.00 |
| **106.2.21** | 30.10.2024 | 008386 | P Liversidge | Cynnal a chadw glaswellt mis Medi | £175.00 |
| **106.2.22** | 30.10.2024 | 008387 | Catalyst | Ffi gwasanaeth ffôn mis Awst | £58.78 |
| **106.2.23** | 30.10.2024 | 008388 | Scottish Power | Gardd Dr EP – trydan 06.06 – 04.09 | £263.10 |
| **106.2.24** | 30.10.2024 | 008389 | H Evans | Tocynnau hanner pris Sion Corn | £12.00 |
| **106.2.25** | 30.10.2024 | 008390 | Un Llais Cymru | J Davies modiwl 7 | £40.00 |
| **106.2.26** | 30.10.2024 | 008391 | J Barlow | Ad-daliad Zoom mis Hydref | £15.59 |
| **106.2.27** | 30.10.2024 | 008393 | C E Jones | Costau teithio mis Mehefin – mis Medi | £35.55 |
| **106.2.28** | 30.10.2024 | 008394 | Arglwydd Faer Caer | Digwyddiad 19.11.2024 | £35.00 |
| **106.2.29** | 30.10.2024 | 008395 | Un Llais Cymru | J Davies modiwl 5 | £40.00 |
| **106.2.30** | 30.10.2024 | 008396 | H Evans | Taflenni'r arddangosfa tân gwyllt | £15.00 |
| **106.2.31** | 30.10.2024 | 008397 | Cyfrif Elusen Rhuddlan | Digwyddiad 23.11.2024 | £25.00 |
| **106.2.32** | 30.10.2024 | 008398 | Ministry of Colours | Bwcedi casglu arian | £106.80 |
| **106.2.33** | 30.10.2024 | 008399 | Catalyst | Copi wrth gefn mis Medi | £6.00 |
| **106.2.34** | 30.10.2024 | 008400 | Apêl Pabi Coch y Lleng Brydeinig | Torch pabi coch Sul y Cofio | £30.00 |
| | | | | | **Cyfanswm £12,026.49** |
| | | | | | |

**106.3 Taliadau y mae'n ofynnol eu hawdurdodi: cytunwyd ar a nodwyd y taliadau isod gan y Cynghorwyr Tref**:

| Rhif yr eitem | Dyddiad | Rhif y siec | Siec yn daladwy i | Disgrifiad y taliad | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| **106.3.1** | 13.12.2024 | 008452 | Core Highways | Cau ffyrdd – digwyddiad goleuo'r goleuadau Nadolig | £1440.00 |
| **106.3.2** | 13.12.2024 | 008453 | Core Highways | Cau ffyrdd – y digwyddiad tân gwyllt | £744.00 |
| **106.3.3** | 13.12.2024 | 008454 | C Jones | Bwffe dinesig | £121.82 |
| | | | | | **Cyfanswm:** £ 2305.82 |

**106.4 Rhestr y derbyniadau ym mis Medi 2024 – cytunwyd a nodwyd –** gohiriwyd adroddiad mis Hydref nes y derbynnir copïau o'r datganiadau banc gan na dderbyniwyd y datganiadau gwreiddiol.

| Rhif yr eitem | Dyddiad | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|---|
| 106.4.1 | 29.09.2023 | Llog credyd | £359.05 |

**106.5 Cymorth grant a awdurdodwyd gan y Cynghorwyr Tref:**

| Rhif yr eitem | Cod | Rhif y siec | Siec yn daladwy i | Swm |
|---|---|---|---|---|
| **106.5.1** | Adran 137 | 008455 | North Wales Superkids | £100.00 |
| **106.5.2** | Adran 145 | 008456 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru | £100.00 |
| **106.5.3** | Adran 137 | 008457 | Ambiwlans Awyr Cymru | £100.00 |

**106.6 Cadarnhau'r taliadau a dderbyniwyd –** Clwb Rygbi Dinbych – Nodwyd.

**106.7 Sut y defnyddiwyd taliadau cymorth grant (Adolygiad 6 mis) –** Sioe Dinbych – Nodwyd.

**106.8 Dyfynbrisiau** – Dim.

**107 Cynllunio:**

**107.1** 01/2024/1333/PF
Denbigh Carpets & Beds, Uned 3a Ystad Fasnachu'r Dyffryn, Dinbych
Newid defnydd uned arddangos nad yw'n cael ei defnyddio mwyach i ardal bwyd ac adloniant/gemau a thecawê bwyd poeth (defnydd Dosbarth A3)

***Ni wnaed unrhyw sylwadau gan y Cynghorwyr Tref ar y cais uchod gan fod yr ymgeisydd wedi tynnu'r cais yn ôl ar 10 Rhagfyr.***

...................................................................................................................................

**107.2** 01/2024/1386/AD
Y Farchnad Fenyn, Llain y Capel, Dinbych
Arddangos 5 arwydd ffasgia wedi'u goleuo'n fewnol.

***Dim gwrthwynebiad gan y Cynghorwyr Tref i'r cais uchod.***

...................................................................................................................................

**107.3** 01/2024/1404/PF
Gwasanaethau Allgymorth Gwledig, Cymdeithas Mind Dyffryn Clwyd, 4 Lôn Rhosmari, Dinbych
Newid defnydd swyddfa i ffurfio un annedd (defnydd Dosbarth C3) a gwaith cysylltiedig.

***Ni wnaed unrhyw sylwadau/penderfyniadau gan y Cynghorwyr Tref ar y cais uchod – aros am ragor o wybodaeth ynghylch y newid defnydd y gwnaed cais i'r Swyddog Cynllunio amdani.***

...................................................................................................................................

**107.4** 01/2024/1418/PF
Adeiladau Thomas, Bull Lane, Dinbych
Newid cyn swyddfa ddidoli'r swyddfa bost a'r llawr cyntaf a'r ail lawr i ffurfio 9 fflat hunangynhwysol a gwaith cysylltiedig.
***Dim gwrthwynebiad gan y Cynghorwyr Tref i'r cais uchod.***

...................................................................................................................................

**107.5** 01/2024/1419/Caniatâd Adeilad Rhestredig
Adeiladau Thomas, Bull Lane, Dinbych
Newid cyn swyddfa ddidoli'r swyddfa bost a'r llawr cyntaf a'r ail lawr i ffurfio 9 fflat hunangynhwysol a gwaith cysylltiedig (Caniatâd Adeilad Rhestredig)

***Dim gwrthwynebiad gan y Cynghorwyr Tref i'r cais uchod.***

***Dymuna'r Cyngor Tref nodi y dylid dyrannu'r fflatiau newydd i bobl leol ac y dylid sicrhau bod darpariaeth parcio yno.***

...................................................................................................................................

**107.6** 01/2024/1453/PF
Tal y Fan Lodge, Lawnt, Dinbych
Newid ac addasu adeilad y porthordy i ffurfio gweithdy trwsio dodrefn a llety i'r rheolwr ar y llawr cyntaf.

***Dim gwrthwynebiad gan y Cynghorwyr Tref i'r cais uchod.***

...................................................................................................................................

**107.7** 01/2024/1454/LBC
Tal y Fan Lodge, Lawnt, Dinbych

Newid ac addasu adeilad y porthordy i ffurfio gweithdy trwsio dodrefn a llety i’r rheolwr ar y llawr cyntaf. (Cais adeilad rhestredig.)

***Dim gwrthwynebiad gan y Cynghorwyr Tref i’r cais uchod.***

………………………………………………………………………………………………………………

**107.8** 01/2024/1467/TC
Myddelton College, Stryd y Parc, Dinbych
Gwaith lleihau coron nifer o goed yn Ardal Gadwraeth Dinbych.

***Dim gwrthwynebiad gan y Cynghorwyr Tref i’r cais uchod.***

………………………………………………………………………………………………………………

**107.9** 01/2024/1481/PF
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gorsaf Dân Dinbych, Ffordd y Ffair, Dinbych
Dymchwel y tŵr hyfforddiant ffrâm ddur sy’n bodoli (yn cynnwys y sail concrid) a’r storfa cerrig unllawr nesaf ato. Adeiladu tŵr hyfforddiant ffrâm ddur ar sail concrid newydd mewn lleoliad newydd, yn cynnwys goleuadau allanol newydd.

***Dim gwrthwynebiad gan y Cynghorwyr Tref i’r cais uchod.***

………………………………………………………………………………………………………………

01/2024/1481/PF

**107.10** 01/2024/1483/PF
Wings Club, Tŷ Trenchard, Lôn Rhosmari, Dinbych
Adnewyddu tair ffenestr llawr cyntaf.

***Dim gwrthwynebiad gan y Cynghorwyr Tref i’r cais uchod.***

………………………………………………………………………………………………………………

**107.11** 01/2024/1486/HH
17 Bryn Onnen, Dinbych
Adeiladu estyniad unllawr i’r annedd.

***Dim gwrthwynebiad gan y Cynghorwyr Tref i’r cais uchod.***

………………………………………………………………………………………………………………

**107.12** CAS – 03423-V9Z8M3
Chwarel Dinbych, Ffordd y Graig, Dinbych
Cais atgyfnerthu am estyniad i gloddio a gweithio calchfaen, mewnforio gwastraff anadweithiol ac adfer tir amwynder.

***Dim gwrthwynebiad newydd gan y Cynghorwyr Tref i’r cais uchod.***

- ***Nid oedd gan y Cynghorwyr Tref unrhyw wrthwynebiadau ychwanegol i'r rhai a restrwyd ym mis Medi 2023 a mis Gorffennaf 2022.***

***<u>Codwyd gwrthwynebiadau ar y seiliau a ganlyn:</u>***

- ***Materion amgylcheddol yn cynnwys iechyd a llesiant, difrod i eiddo, llygredd llwch, llygredd sŵn, colli mannau gwyrdd, colli mannau cyhoeddus at ddibenion hamdden.***

- ***Traffig – mwy o draffig ar ffordd sy'n brysur eisoes. Effaith mawr ar drigolion lleol.***

- ***Dim budd i drigolion Dinbych.***

- ***Nid oes angen am y cynnyrch o'r chwarel yn Sir Ddinbych.***

***Hefyd hoffai'r Cynghorwyr Tref nodi, os nad yw'r cynlluniau'n cael eu gwireddu a bod y chwarel yn cau ymhen amser, y cynigir gwaith i'r staff cyfredol mewn lleoliad amgen yn hytrach na'u diswyddo.***

**108 Diweddariad gan y Maer – Dim.**

**109 Cyfarfodydd eraill y bu'r Cynghorwyr Tref ynddynt**

**109.1** Bu'r Cynghorydd Andrew Hine mewn cyfarfod ynghylch camerâu teledu cylch cyfyng Pwll y Grawys nad ydynt yn gweithio. Mae mewn trafodaethau gyda Chyngor Sir Ddinbych gyda'r nod o ddatrys y mater.

**109.2** Bu'r Cynghorydd Roy Tickle a'r Cynghorydd Gaynor Wood-Tickle yng nghyfarfod chwarterol a chyfarfod blynyddol y Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref Biwmares ar 04.12.2024, drwy gyfrwng Zoom. Nodwyd gan Glerc y Dref fod y tanysgrifiad blynyddol wedi lleihau o £400.00 i £100.00, i'w adolygu bob blwyddyn.

**110 Diweddariad gan y Cynghorydd Sir Pauline Edwards –**
Trafododd y Cynghorydd Edwards y tai cymdeithasol ar Lôn Llewelyn. Cadarnhaodd, o'r 110 o dai i'w hadeiladu, mae 32 wedi'u dyrannu i bobl leol gyda'r nod o fod ar gael o 8 Ionawr 2025.
Hefyd gwnaed mwy o waith adeiladu ar ochr allanol yr adeiladau ger Fferm Goppi a gobeithir y byddant ar gael yn Haf 2025.

**111 Cau'r swyddfa dros gyfnod y Nadolig –** Cadarnhaodd Clerc y Dref y byddai swyddfeydd Cyngor Tref Dinbych ar gau o hanner dydd ddydd Gwener, 20 Rhagfyr 2024 tan 9am fore Llun, 6 Ionawr 2025 – Diolchodd y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Jan Tomlinson, i Glerc y Dref a'r Cynorthwy-ydd am eu gwaith caled eleni a dymunodd seibiant haeddiannol iddynt dros gyfnod y Nadolig.

**112 Darlithoedd Treftadaeth 2025 –** Cadarnhaodd y Clerc y cynhelir y darlithoedd treftadaeth yn 2025 ym mis Chwefror a mis Mawrth a gobeithir cael rhwng pump a saith darlith. Cytunwyd a derbyniwyd rhoi cyfraniad o £50.00 i bob darlithydd. Hefyd cytunwyd a

derbyniwyd y byddai'r casgliad yn y bwcedi yn ystod y darlithoedd treftadaeth yn cael eu rhoi i'r elusennau dewisedig 2024/2025.

**113 Cyflogau staff – mater sy'n parhau.**

***Oherwydd natur gyfrinachol busnes yr eitem agenda hon, dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 (3) cynigir cyflwyno cynnig i eithrio aelodau'r cyhoedd yn ystod trafod yr eitem agenda hon***

Cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod am 20.11

Llofnod ……………………………………

Dyddiad …………………………………